



Grŵp Cynefin

Mwy na thai • More than housing

Grŵp Cynefin

Hunanwerthusiad 2021-22



Ym mis Ionawr 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Fframwaith Rheoleiddio diwygiedig, i nodi sut y caiff Cymdeithasau Tai eu rheoleiddio.

Felly beth yw rheoleiddio?

Pwrpas rheoleiddio cymdeithasau tai yw diogelu tenantiaid a buddsoddiad mewn cymdeithasau tai. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio, ac mae'n gwneud hynny'n bennaf drwy oruchwyllo a monitro, gan ymyrryd dim ond lle y bo angen

Mae'r Fframwaith yn gofyn fod, o leiaf unwaith bob blwyddyn, fod yn rhaid i bob cymdeithas dai gynhyrchu a chyflwyno hunanwerthusiad sy'n gwerthuso ansawdd llywodraethu, darparu gwasanaethau a hyfywedd ariannol y sefydliad wrth gyflawni ei bwrpas a'i hamcanion.

Mae'r hunanwerthusiad yn seiliedig ar y Safonau Rheoleiddio.

Gallwch ddysgu mwy am y Fframwaith Rheoleiddio a'r Safonau Rheoleiddio yma.

Derbyniodd Grŵp Cynefin ei ddyfarniad rheoleiddio ar y 23/11/22 ac mae'n bodloni'r safonau rheoleiddiol a bydd yn derbyn goruchwyliaeth reoleiddiol rheolaidd.

Llywodraethu a Gwasanaethau Tenantiaid

Cydymffurfio

Gwyrdd

Mae'r Gymdeithas yn cyrraedd y safonau rheoleiddio a bydd yn destun goruchwyliaeth reoleiddiol arferol.

Hyfywedd ariannol

Cydymffurfio

Gwyrdd

Mae'r Gymdeithas yn cyrraedd y safonau rheoleiddio a bydd yn destun goruchwyliaeth reoleiddiol arferol.

Dyma gipolwg ar ein prif negeseuon o'n Hunanwerthusiad. Cysylltwch os am ragor o fanylion, ac cymerwch gyfle i edrych ar ein Hadroddiad Blynyddol sy'n rhoi ein prif uchafbwyntiau ar gyfer 2021-22

Grŵp Cynefin | 0300 111 2122 | post@grwpcyefin.org | grwpcyefin.org

Dilynwch ni ar



Llywodraethu

Safon Rheoleiddio (SR) 1.0

Mae gan y sefydliad drefniadau arwain a llywodraethu strategol effeithiol sy'n ei alluogi i gyflawni ei ddiben a bodloni ei amcanion

Mae gan Grŵp Cynefin strategaeth sy'n adlewyrchu ei weledigaeth, ei ddiwylliant a'i werthoedd ac sy'n nodi sut y bydd y sefydliad yn cyflawni ei ddiben craidd fel landlord cymdeithasol

Yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, mae Grŵp Cynefin yn bodloni'r safon yn llawn. Mae hyn oherwydd bod gennym strategaeth sy'n adlewyrchu ein gweledigaeth, ein diwylliant a'n gwerthoedd ac mae gennym Gynllun Corfforaethol yn nodi sut y byddwn yn cyflawni ein pwrpas craidd fel landlord cymdeithasol, ac wrth gyflawni'r elfen 'Mwy na Thai'.

Ymgynghorwyd â thenantiaid ar beth oedd eu blaenoriaethau yn ystod adolygiad tymor-canolig y Cynllun Corfforaethol, a'u cyflwyno i ddiwrnod strategol y Bwrdd

Mae Grŵp Cynefin o'r farn eu bod yn bodloni'r safon yn llawn



Mae'n cydymffurfio â'i ddogfennau llywodraethu ei hun ac yn bodloni gofynion Cod Llywodraethu priodol

Adolygodd Grŵp Cynefin ei rheolau cofrestredig yn 2021 gan fabwysiadu Cod Llywodraethu newydd er mwyn sicrhau bod gennym y dogfennau llywodraethu diweddaraf.

Fe drefnwyd i gwmni allanol asesu ein trefniadau llywodraethu a canlyniad y gwaith oedd derbyn lefel 3 (sef yr uchaf bosib).

Gwnaeth Grŵp Cynefin asesiad ei hun yn erbyn gofynion y Cod Llywodraethu, a gwelwyd ei fod yn bodloni 88% o ofynion y Cod Llywodraethu yn llawn, ac yn bodloni 8% yn rhannol gyda rhai manau i gryfhau a gwella.

Mae Grŵp Cynefin o'r farn eu bod yn bodloni'r safon yn llawn



“ Ymdrechwn i adlewyrchu'r cymunedau rydym yn gweithio ynddynt ”

Mae'n pennu ymrwymadau mesuradwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth ym mhob un o'i feysydd busnes mewn perthynas â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (gan gynnwys materion gwrth-hiliaeth a mynd i'r afael â throedd casineb) ac yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau y mae'n gweithio gyda nhw ac ynddynt

Mae Grŵp Cynefin wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws ei holl wasanaethau, a gall ddangos yr ymrwymiad hwnnw drwy nifer o weithgareddau, hyrwyddiadau ac adroddiadau ar draws y grŵp. Mae hefyd wedi ymrwymo i osod ymrwymadau mesuradwy, sy'n seiliedig ar dystiolaeth (gan gynnwys gwrth-hiliaeth a mynd i'r afael â throeddau casineb), nad yw ar waith ar hyn o bryd.

Wrth symud ymlaen, mae Grŵp Cynefin wedi gosod nod strategol i sefydlu Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ynghyd â chynllun gweithredu, a fydd yn darparu ffocws cyson a chlir ar draws y grŵp.

Ar hyn o bryd, ein barn ni felly yw ein bod yn yn cwrdd â gofynion y safon yn rhannol, gyda mwy o waith i'w wneud.



Mae ganddo Fwrdd amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau y mae'n gweithio gyda nhw ac ynddynt, ac sy'n meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i fod yn effeithiol

Mae Grŵp Cynefin yn ymdrechu i gael Bwrdd amrywiol, gan gynnwys balans o aelodau Cymraeg a Saesneg eu hiaith. Mae'n asesu ei Gynllun Olyniaeth Bwrdd yn barhaus ar gyfer y sgiliau a'r wybodaeth gywir sydd eu hangen i gyflawni ei nodau strategol, hefyd yn nodi unrhyw fylchau i dargedu grwpiau a nodwyd wrth recriwtio.

Rydym yn ymdrechu i adlewyrchu'r cymunedau rydym yn gweithio ynddynt, ac yn cymharu data gyda cymdeithasau tai lleol, ond mae'n cydnabod bod angen gwneud mwy o waith, fel rhan o strategaeth, ac fel pan fydd mwy o ddata Cyfrifiad 2021 ar gael.

Mae Grŵp Cynefin o'r farn eu bod yn bodloni'r safon yn llawn



Mae'n gwneud penderfyniadau rhesymegol yn seiliedig ar wybodaeth glir o ansawdd da sy'n cynnwys asesu risg a, lle y bo'n briodol, barn tenantiaid

Mae Bwrdd a Phwyllgorau Grŵp Cynefin yn derbyn gwybodaeth o ansawdd dda, gan gynnwys barn tenantiaid lle bo hynny'n briodol, lle mae hynny'n galluogi trafodaeth dda.

Ar hyn o bryd nid ydym yn ymgynghori â grwpiau tenantiaid yn benodol ar ein risgiau allweddol a byddwn yn ystyried y ffordd orau o wneud hyn.

Mae Grŵp Cynefin o'r farn eu bod yn bodloni'r safon yn llawn



Mae'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, gofynion rheoleiddio a chanllawiau statudol perthnasol ac yn cyfathrebu'n amserol â'r rheoleiddiwr, gan gynnwys ynghylch materion perthnasol sy'n ymwneud ag achosion gwirioneddol neu bosibl o ddiffyg cydymffurfio

Mae gan Grŵp Cynefin drefniadau ar waith i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, canllawiau rheoleiddio a statudol, sy'n cynnwys comisiynu cyngor arbenigol a chyfreithiol lle bo angen. Mae Grŵp Cynefin yn cefnogi cyd-reoleiddio ac yn ymgysylltu a chyfathrebu'n gyson â'r rheoleiddiwr, gan gynnwys ar faterion materol sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfiant posib.

Mae Grŵp Cynefin o'r farn eu bod yn bodloni'r safon yn llawn



“ Rhown ”
bwyslais mawr ar
lais y tenant ac
rydym yn adeiladu ar
hyn yn barhaus



“ Mae ein cefnogaeth i’n tenantiaid a’n cwsmeriaid yn flaenoriaeth barhaus, a phan fydd heriau’n fel Covid-19 yn ein hwynebu, er enghraifft, rydym mewn sefyllfa gref i ymateb mewn ffordd addas ac effeithiol ”

Mae’n galluogi tenantiaid i ddylanwadu ar benderfyniadau strategol

Cymeradwywyd Strategaeth Cynnwys Tenantiaid newydd Grŵp Cynefin 2022-2025 ym mis Mawrth 2022, sy’n darparu ffocws clir i sicrhau bod ein tenantiaid yn chwarae rôl allweddol yn niwylliant Grŵp Cynefin. Datblygwyd y strategaeth newydd ochr yn ochr â staff a thenantiaid, ac mae’n darparu cymorth ac ystod o ffyrdd y gall y tenantiaid gymryd rhan ar wahanol lefelau o ddylanwad a her, gan roi tenantiaid yn gadarn wrth galon ein holl waith.

Prif amcanion ac amcanion y Strategaeth, yw:

1. Diwylliant o ymgysylltu â thenantiaid wrth wraidd y gymdeithas
2. Gwella gwasanaethau
3. Grymuso a chynyddu Sgiliau Tenantiaid

Mae Grŵp Cynefin o’r farn eu bod yn bodloni’r safon yn llawn



Adolygodd Grŵp Cynefin ei gynllun olyniaeth y Bwrdd yn ddiweddar, a nodwyd bod y bylchau sgiliau ac amrywiaeth o fewn y penawdau isod. Byddwn yn mynd ati i dargedu’r grwpiau yma wrth recriwtio ar gyfer aelodau bwrdd:

- Oedran iau
- Pobl ag anableddau
- Lleiafrif tarddiad ethnig
- Lleiafrif cyfeiriadedd rhywiol
- Cymry Cymraeg

Adolygodd y Bwrdd Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau ym mis Medi 2021, gan gynyddu nifer y seddi i denantiaid i 8 (lle mae gan aelodau’r Bwrdd 3 sedd)



Meysydd gwella:

- i. Datblygu Strategaeth Pobl i sefydlu profiad cadarnhaol i staff, drwy ddatblygu gweithle ardderchog lle i weithio, i ddysgu a llwyddo
- ii. Cwblhau ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a’n Cynl-lun Gweithredu i fodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, ac arferion i ddiwallu anghenion amrywiol ein tenant a defnyddwyr gwasanaeth.

Rheoli risg

Safon Rheoleiddio (SR) 2.0

Mae gan Grŵp Cynefin drefniadau cadarn ar waith i reoli risg a rhoi sicrwydd

Mae gan Grŵp Cynefin fframwaith effeithiol ar gyfer rheoli risg, rheolaethau mewnol a sicrwydd sy'n ei alluogi i nodi a rheoli risgiau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg a allai ei atal rhag cyflawni ei strategaeth neu gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol neu reoleiddiol

Gall Grŵp Cynefin roi tystiolaeth bod gennym nifer o enghreifftiau o sicrwydd allanol ar gael i sicrhau gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol. Mae'r risgiau presennol yn cael eu monitro'n chwarterol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, ac ddwywaith y flwyddyn i'r Bwrdd, ac yn trafod risgiau sy'n dod i'r amlwg trwy amrywiaeth o ffyrdd.

Darperir hyfforddiant parhaus i staff ac Aelodau'r Bwrdd ar risg, gan gynnwys Seiber ddiogelwch, Iechyd a Diogelwch a meysydd eraill i gydymffurfio â deddfwriaethau.

Mae Grŵp Cynefin o'r farn eu bod yn bodloni'r safon yn llawn



Nid yw Grŵp Cynefin yn rhoi asedau tai cymdeithasol na thenantiaid mewn perygl gormodol

Mae Grŵp Cynefin yn buddsoddi mewn arbenigwr allanol i ddarparu cymorth iechyd a diogelwch parhaus gan sicrhau nad yw'n peryglu asedau tai cymdeithasol, staff neu denantiaid sy'n wynebu risg gormodol.

Cynhaliodd arbenigwyr Iechyd a Diogelwch allanol 'archwiliad iechyd' strategol o lywodraethiant iechyd a diogelwch wnaeth arwain at ddatblygu Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch a sefydlu Grŵp Strategol Iechyd a Diogelwch mewnol, Cynhaliwyd adolygiad pellach, oedd yn cynnwys adolygiad o ddogfennau, cyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda rheolwyr a staff rheng flaen

Mae adolygiad cynhwysfawr o bolisiau Iechyd a Diogelwch landlord allweddol, a dau weithdy wedi'u cynnal i godi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i aelodau'r Bwrdd, ac i gytuno ar eu chwant risg o fewn y meysydd hyn.

Mae Grŵp Cynefin o'r farn eu bod yn bodloni'r safon yn llawn



Mae'n cynnal cynllun parhad busnes, cynllun wrth gefn a chynllun adfer o effeithiau trychinebau hygrych a chyfred

Grŵp Cynefin yn cadw cynlluniau parhad busnes, a chynlluniau adfer trychineb ac wrth gefn gyda mynediad cyfyngedig i staff

Datblygwyd cynlluniau digwyddiad mawr Grŵp Cynefin a Pholisi Digwyddiadau Mawr gyda chymorth ymgynghorydd allanol ac roeddent yn cynnwys y disgwyliad i gynnal asesiadau effaith busnes ar draws holl dimau Grŵp Cynefin.

Caiff y Cynlluniau eu hadolygu a'u diweddarau gan y Tîm Digwyddiadau Mawr o leiaf bob 6 mis, ac yn ystod Covid profwyd y cynlluniau yn drylwyr yn rheolaidd.

Mae Grŵp Cynefin o'r farn eu bod yn bodloni'r safon yn llawn



Meysydd gwella:

Adolygu chwant risg ar gyfer Bwrdd Grŵp Cynefin i ddeall yn well fydd yn fodd i fframio pend-erfyniadau cyllidebol a chynllunio busnes.




Rheoli risg

Yn ystod y cyfnod clo, cynhaliodd Arolygwyr Tenantiaid archwiliad rhithiol o wefan Grŵp Cynefin yn erbyn gofynion y ddogfen 'Diogelwch yn Gyntaf' o amgylch sicrhau diogelwch tenantiaid yn ein heiddo. Gofynnwyd iddynt ystyried pa wybodaeth oedd ar gael, o'i gymharu â gwefannau cymdeithasau tai eraill. Roedd y rhain yn cynnwys ystyried pa wybodaeth oedd ar gael o gwmpas :

- Diogelwch Tân
- Diogelwch Nwy
- Gwybodaeth Asbestos
- Gwybodaeth Diogelwch Trydanol
- Sut i gysylltu â Grŵp Cynefin mewn argyfwng.

Awgrymwyd rhai gwelliannau, a datblygwyd Gynllun Gweithredu gan y Rheolwr Iechyd a Diogelwch a caiff ei fonitro gan y Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau. Roedd y canfyddiadau hefyd yn bwydo wrth sefydlu gwefan newydd Grŵp Cynefin.



Mae iechyd a diogelwch ein staff yn cynnwys lles ein staff.

Roedd rhaglen lles staff yn cynnig sesiynau amrywiol, o ddelio â straen i weithdai ar les ariannol a chynghor.

Anogir a hyrwyddir sgwrs onest ac agored am iechyd meddwl a lles mewn ffordd gadarnhaol.



Gwasanaethau o Safon

Safon Rheoleiddio (SR) 3.0

Mae Grŵp Cynefin yn darparu gwasanaethau o safon uchel i denantiaid

Mae Grŵp Cynefin yn sicrhau bod tenantiaid yn ddiogel yn eu cartrefi ac yn nodi ac yn cywiro'n brydlon unrhyw achosion o danberfformio neu ddiffyg cydymffurfio â materion iechyd a diogelwch landlordiaid

Mae Grŵp Cynefin wedi ymrwymo i gadw ei denantiaid a thenantiaid y dyfodol yn ddiogel, ac mae wedi blaenoriaethu cyllidebau ychwanegol, yn benodol o ran diogelwch tân, i sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

Rheolir risgiau Iechyd a Diogelwch landlordiaid gan y Grŵp Iechyd a Diogelwch Strategol, dan arweiniad Cyfarwyddwr Adnoddau'r Grŵp, trwy gefnogaeth y Rheolwr Iechyd a Diogelwch, ac arbenigwyr allanol. Mae'r Grŵp hefyd yn monitro perfformiad iechyd a diogelwch sy'n nodi ac yn cywiro unrhyw dan-berfformiad a diffyg cydymffurfiaeth ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn craffu ymhellach bob chwarter.

Mae Grŵp Cynefin o'r farn eu bod yn bodloni'r safon yn llawn



Mae'n darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion amrywiol tenantiaid

Mae Grŵp Cynefin yn falch ei fod yn darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion amrywiol tenantiaid a defnyddwyr gwasanaeth eraill, ac mae ganddi amrywiaeth o opsiynau tai ar gael, megis tai cymdeithasol, llety gwarchod, cynlluniau gofal ychwanegol, a chartrefi fforddiadwy gyda gwahanol opsiynau rhannu ecwiti gan gynnwys y cynllun Cymorth Prynu.

Mae hefyd yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau cefnogi tenantiaid, fel y Tîm Tai a'r Tîm Lles i gefnogi tenantiaid i gynnal eu tenantiaeth, a'n gwasanaethau Gorwel sy'n darparu gwasanaethau cymorth cam-drin domestig a digartrefedd.

Mae'r Strategaeth Cynnwys Tenantiaid a'n Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth hefyd yn darparu gwasanaethau ychwanegol i'n tenantiaid a'r gymuned ehangach, fel y Wardeiniaid Ynni i gael yr arferion a'r prisiau gorau ar gostau a defnydd ynni, a phrosiectau

adfywio cymunedol penodol o dan ein ambarél 'Mwy na Thai'.

Mae ein his-gwmnïau, sef asiantaethau Gofal a Thrwsio, hefyd yn darparu gwasanaethau tai ac atebion ymarferol wrth ymateb i anghenion tai pobl leol a phobl hŷn neu fregus wrth geisio lleihau eu hanfantaes cymdeithasol.

Mae Gorwel yn cynnig traws doriad o gynlluniau o ran cefnogi plant, pobl ifanc, oedolion a phobl hŷn. Mae gwasanaethau Cam-drin Domestig yn cefnogi dioddefwyr a hefyd yn darparu darpariaeth i gyflawnwyr cam-drin domestig ac felly'n diwallu anghenion amrywiol defnyddwyr ei wasanaeth.

Mae ein Strategaeth Trawsnewid Digidol wedi darparu systemau newydd ar gyfer tenantiaid, megis y porth tenantiaid, 'Ap Cynefin' i hwyluso tenantiaid gael gwybodaeth yn gyflymach, hefyd mae cyfleuster 'sgwrs' drwy ein gwefan newydd, a lansiwyd ym mis Ebrill 2022.

Mae Grŵp Cynefin o'r farn eu bod yn bodloni'r safon yn llawn



Gwasanaethau o Safon

Mae'n cyflawni ac yn cynnal lefelau uchel o foddhad â gwasanaethau ymhlith tenantiaid

Gweledigaeth Grŵp Cynefin yw 'Gwneud gwahaniaeth positif i fywydau a chymunedau' ac un o'n nodau corfforaethol yw darparu gwasanaethau rhagorol, y rhan bwysicaf yw ein gwasanaeth i denantiaid a chwsmeriaid.

Mae Fframwaith Boddhad mewn lle i gynnal a gwella lefel boddhad tenantiaid, ac rydym ar hyn o bryd yn diweddarau ein data ac yn gofyn i denantiaid gwblhau holiadur boddhad i ddeall pa mor fodlon yw ein tenantiaid o amgylch y gwasanaethau presennol, i lunio gwelliant parhaus

Mae Grŵp Cynefin o'r farn eu bod yn bodloni'r safon yn llawn



Mae'n sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad y landlord ar gael i denantiaid

Mae Grŵp Cynefin yn cynhyrchu gwybodaeth ar berfformiad manwl ar gyfer y Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau, a chyflwynir adroddiadau perfformiad eraill i'r gwahanol grwpiau a fforymau cyfranogiad tenantiaid, a chylchredir gwybodaeth o fewn y cylchgrawn ar

gyfer ein tenantiaid, sef 'Calon'. Mae adroddiad blynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth am berfformiad wedi'i gynnwys ar y wefan ar gyfer y gynulleidfa denant 'ehangach' ond rydym yn cytuno y gellid darparu mwy o wybodaeth er mwyn sicrhau tryloywder.

Mae Grŵp Cynefin o'r farn eu bod yn bodloni'r safon yn llawn



Gwasanaethau o Safon

Ymgynghorwyd â thenantiaid wrth lansio'r porth tenant newydd, ac o ganlyniad, roedd tenantiaid yn ffafrio 'ap' yn hytrach na phorth ar y we, sef bwriad gwreiddiol Grŵp Cynefin. Lansiwyd yr ap, a enwir yn 'Ap Cynefin' ym mis Mawrth 2020. Awgrymodd tenantiaid hefyd y dylid cynnwys 'cyfrifiannell budd-daliadau' ar yr ap, hefyd elfen 'sgwrs fyw', i hwyluso tenantiaid, ac fe weithredwyd hynny.

Mae Grŵp Cynefin yn ymweld â stadau a thenantiaid yn rheolaidd ac mae ymgynghoriad wedi ei seilio ar thema benodol. Roedd y thema yn ystod 2021 yn ymwneud â lles ein tenantiaid yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth a hyrwyddo sut y gallai tenantiaid roi adborth ar y gwasanaethau maen nhw'n eu darparu.

O sampl o 1040 tenant a arolygwyd, roedd **59%** yn fodlon iawn, a **26%** yn fodlon wrth ymateb i'r datganiad canlynol: *Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi gyda'r gwasanaeth a ddarperir gan eich cymdeithas tai?*

O sampl o 1040 tenant a arolygwyd, roedd **50%** yn fodlon iawn, a **26%** yn fodlon wrth ymateb i'r datganiad canlynol: *Yn gyffredinol, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi gyda'r ffordd y mae eich cymdeithas dai yn delio ag atgyweiriadau a chynnal a chadw?*

Meysydd gwella:

1. Cynnal adolygiad strategol o ddarpariaeth llety i Bobl Hŷn a chytuno ar gyfeiriad y dyfodol i'r gwasanaethau cysylltiedig i bobl hŷn



Gwibdaith 2021



Wedi teithio o **6** sir
amgylch



Wedi ymweld â
41
stad



Wedi ymweld â
785
eiddo



Wedi siarad gyda
299
tenant

Prif bwrpas y wibdaith eleni oedd ymholi am les ein tenantiaid, yn ogystal a chodi ymwybyddiaeth a hyrwyddo cyfleon a chefnogaeth eraill mae Grŵp Cynefin yn ei gynnig. Roedd hefyd yn gyfle i ymgynghori ar Galendr blyneddol Grŵp Cynefin a hyrwyddo Ap Cynefin gann gynnig cymorth i lawrlwytho yr Ap ar eu stepen drws. Gweler canlyniadau'r ymgynghori isod.

ApCynefin



Wedi nodi eu bod unai wedi llawrlwytho'r Ap yn barod neu yn bwriadu ei lawrlwytho

Cymdogaeth



Wedi nodi eu bod unai yn fodlon iawn neu gweddol fodlon o'r gymdogaeth lle maen't yn byw

Gwerth am Arian



Wedi nodi eu bod unai yn fodlon iawn neu gweddol fodlon bod eu rhent yn rhoi gwerth am arian

Gwasanaeth



Wedi nodi eu bod unai yn fodlon iawn neu gweddol fodlon bod Grŵp Cynefin yn darparu'r gwasanaeth maen't yn ei ddisgwyl

Gwrandd a Gweithredu



Wedi nodi eu bod unai yn fodlon iawn neu gweddol fodlon bod Grŵp Cynefin yn gwrandd ar eu safbwyntiau a gweithredu amynt

Calendr



Wedi nodi eu bod eisiau parhau i dderbyn Calendr Blyneddol Grŵp Cynefin

Llais y Tenant

Safon Rheoleiddio (SR) 4.0

Caiff tenantiaid eu grymuso a'u cefnogi i lywio a dylanwadu ar wasanaethau

Mae Grŵp Cynefin yn creu diwylliant sy'n gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo cyfranogiad tenantiaid

Mae Grŵp Cynefin wedi gosod ei ddiwylliant ym maes grymuso tenantiaid, ac mae'r adolygiad tymor-canolog y Cynllun Corfforaethol yn gosod diwylliant a anogir trwy'r grŵp cyfa, yn un lle mae'r cwsmer wrth galon popeth a wnawn.

Adolygodd y Bwrdd Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau gan gynyddu nifer y seddi i denantiaid i 8 (lle mai dim ond 3 sedd sydd gan aelodau'r Bwrdd), er mwyn caniatáu mwy o ddylanwad

tenantiaid ar lefel strategol.

Roedd y Strategaeth Tenantiaid ac Ymgysylltu Cymunedol, tan yn ddiweddar, yn cynnwys amcanion datblygu cymunedol a chyfranogiad tenantiaid ar y cyd, ond penderfynwyd datblygu strategaethau ar wahân ar gyfer y ddwy agwedd bwysig hyn.

Mae ein Hadroddiad Blynyddol yn llawn enghreifftiau a chanlyniadau tenantiaid a chyfranogiad cymunedol.

Mae Grŵp Cynefin o'r farn ei fod yn bodloni'r safon yn llawn



Mae'n galluogi tenantiaid i ddeall dull y sefydliad o gynnwys tenantiaid, sut y gallent gymryd rhan a sut y bydd y sefydliad yn gwrandao ar adborth gan denantiaid ac yn gweithredu arno, ac yn dysgu o gwynion.

Mae gan Grŵp Cynefin amrywiaeth o ffyrdd i denantiaid ymgysylltu a chynnig lefelau gwahanol o ddylanwad. Mae hyn yn cynnwys grwpiau tenantiaid amrywiol, tenantiaid yw'r mwyafrif yr aelodau sydd ar y Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau, holiaduron, holiaduron drwy dext, diwrnodau anffurfiol fel ymweld ac ystadau, Siopwyr Dirgel, Arolygwyr Tenantiaid, ac ail-lansiad 'Llais Cynefin' lle mae tenantiaid yn cytuno i fod yn rhan o grŵp eang o denantiaid i gynnig barn.

Mae ganddo hefyd broses 'Fe ddywedoch chi, Fe wnaethom ni' yn ei le, a stamp "wedi'w gymeradwyo gan Denantiaid' ar bolisiâu a strategaethau allweddol ac ar feysydd lle ymgynghorwyd â

thenantiaid.

O sampl o denantiaid a arolygwyd, roedd 69% yn fodlon neu yn fodlon iawn *bod y gymdeithas dai yn gwrandao ar eu barn, ac yn gweithredu arnyn nhw. Atebodd 17% nad oedden nhw'n cytuno, nac yn anghytuno*

Cyflwynir Adroddiad Cwynion blynyddol i'r Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau sy'n darparu gwybodaeth am y meysydd allweddol lle derbynnir cwynion, a'n perfformiad ar gyfer delio â chwynion, ond mae gennym fwy o waith i'w wneud i gryfhau ymhellach yr elfen 'gwersi a ddysgwyd', a sefydlu Panel Cwynion o denantiaid.

Mae Grŵp Cynefin o'r farn ei fod yn bodloni'r safon yn llawn



Llais y Tenant

Mae'n rhoi cyfleoedd i denantiaid gymryd rhan, yn gallu dangos bod tenantiaid yn fodlon arno ac yn gallu dangos y gwahaniaeth y mae cyfranogiad yn ei wneud

Er bod Grŵp Cynefin yn darparu amrywiaeth o ffyrdd i denantiaid i gymryd rhan, ac ar lefelau gwahanol o ddylanwad, rydym yn teimlo ei bod yn bwysig ein bod yn parhau i wneud mwy.

Yn hyn o beth, rydym wedi comisiynu TPAS Cymru i gynnal gwasanaeth TESA (Asesiad Safonau Ymgysylltu â Thenantiaid), gwasanaeth a ddyluniwyd i helpu sefydliadau i asesu cyfranogiad tenantiaid cyfredol yn erbyn gofynion y safon yma.

Bydd TPAS Cymru'n gweithio ochr yn ochr â staff a thenantiaid yn y gwaith hwn, a byddwn yn gofyn i denantiaid os ydyn nhw'n fodlon ar y cyfleoedd sy'n cael eu darparu iddyn nhw, ac yn nodi unrhyw rwystrau pam nad yw rhai yn cymryd rhan, neu yn dymuno gwneud hynny.

Mae Grŵp Cynefin o'r farn ei fod yn bodloni'r safon yn llawn



“ Mae tenantiaid yn cael eu grymuso a'u cefnogi i ddylanwadu ar ddyluniad a darpariaeth gwasanaeth ”



Llais y Tenant

Gall ddangos bod safbwyntiau a disgwyliadau amrywiol tenantiaid yn llywio'r gwaith o ddatblygu ac adolygu gwasanaethau tai a gwasanaethau cysylltiedig, a'r ymateb i unrhyw achosion o danberfformio

Mae gan Grŵp Cynefin ystod amrywiol o wasanaethau wedi eu teilwra i ystod amrywiol o anghenion tenantiaid a defnyddwyr gwasanaeth, ac yn ymgynghori'n barhaus i ofyn am safbwyntiau a'u disgwyliadau i lywio datblygiad gwasanaethau ardderchog. Cyflwynir gwybodaeth perfformiad rheolaidd i denantiaid drwy'r Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymuned, lle mae tanberfformiad yn cael ei herio.

Ymgynghorwyd â thenantiaid ar ystod o wasanaethau tai a gwasanaethau cysylltiedig drwy'r fframwaith cyfranogiad tenantiaid, ond hefyd ymgynghorir yn rheolaidd â grŵp ehangach o denantiaid. Dyma enghreifftiau:

- Cynnwys Datganiadau Rhent
- Strategaeth Datgarboneiddio a sefydlu Grŵp Gwyrdd.

- Ymgynghori ar y Safon Ansawdd Tai Cymru
- Llythyrau Codiadau Rhent
- Dogfen Cydraddoldeb
- Gwybodaeth am Systemau gwersogi newydd
- Llawlyfr Tenantiaid Rhanberchnogaeth
- Llythyrau Dyledion Rhent
- Polisi Effeithlonrwydd ac Arbedion
- Diffiniad 'Mwy an Thai

Comisiynodd Gorwel arbenigwr allanol i gynnal adolygiadau o'i holl ddarpariaeth gwasanaethau yn ystod 2021/22, a oedd yn cynnwys siarad â defnyddwyr gwasanaethau yr holl wasanaethau y maent yn eu darparu. Roedd y canfyddiadau cyffredinol yn gadarnhaol iawn, ac roedd pob adroddiad yn cynnwys 'casgliadau, ystyriaethau ac argymhellion.



Mae Grŵp Cynefin o'r farn ei fod yn bodloni'r safon yn llawn

Enghraifft ddiweddar o ble mae adborth tenantiaid wedi dylanwadu ar wneud penderfyniadau yw bod gweithgor o denantiaid wedi ymgynghori â'r tenantiaid ehangach ar anfon datganiadau rhent awtomatig chwarterol. Ymatebodd 662 o denantiaid i'r holiadur, lle cytunodd 61 % i atal y datganiadau rhent awtomatig (ac eithrio'r rhai mewn ôl-ddyledion rhent, a'r rhai a ddewisodd eu derbyn o hyd). Mae datganiadau ar gael ar gais, ar unrhyw adeg, ac ar gael trwy borth y Tenant. Pwrpas hyn oedd gweithio'n fwy effeithlon, arbed arian a buddsoddi mewn gwaith cynnal a chadw er mwyn sicrhau cartrefi o ansawdd uchel.

Rhoddodd Archwiliad Mewnol ar Ymgysylltu a Chyfranogiad Tenantiaid adborth rhagorol i ni, a cafwyd farn archwilio 'Sylweddol'/'Cymedrol' cyffredinol.



Meysydd gwella:

- Cynnal adolygiad TESA dan arweiniad TPAS Cymru t o hyrwyddo a chynyddu cyfranogiad tenantiaid i sicrhau bod barn ein tenant yn cael ei glywed.
- Adolygu'r Polisi Cwynion yn ystod 2022/23 a chryfhau'r elfen 'Gwersi a Ddysgwyd', a sefydlu 'Panel Cwynion Tenantiaid' i fonitro, a darparu gwersi a ddysgwyd



Rhenti a Thâl Gwasanaeth

Safon Rheoleiddio (SR) 5.0

Mae rhenti a thaliadau gwasanaeth yn fforddiadwy i denantiaid presennol a darpar denantiaid


Mae'n sicrhau y cydymffurfir â'r holl reolau a chanllawiau statudol perthnasol (gan gynnwys y cytundeb rhent presennol)

Hysbysir lefelau rhent cymdeithasol Grŵp Cynefin (anghenion cyffredinol ac eiddo gwarchodol) gan Gytundeb Rhentu Llywodraeth Cymru, yr ydym yn cydymffurfio â hi. Mae ein hadolygiadau rhent blynyddol yn ystyried yr hyn sy'n fforddiadwy i'n tenantiaid, tra hefyd yn sicrhau hyfywedd ariannol hirdymor Grŵp Cynefin. Mae'r holl godiadau rhent o fewn yr uchafswm blynyddol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Bu i ni ennill gwobr, y 3ydd safle yng Ngwobrau Arferion Da TPAS Cymru oherwydd y gwaith o ymgysylltu â thenantiaid ar y gwaith o adolygu'r rhenti.

Mae Grŵp Tasg a Gorffen weid ei sefydlu sydd yn cynnwys tenantiaid, i adolygu fforddiadwyedd a gwerth am arian. Y gwaith hwn i'w gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2023.

Mae Grŵp Cynefin o'r farn ei fod yn bodloni'r safon yn llawn



Derbyn Gwobrau Arfer Da TPAS Cymru am ein gwaith yn ymwneud â fforddiadwyedd rhent

Arolwg Bodlonrwydd Tenantiaid 2022- Mae rhent yn rhoi gwerth am arian (VFM) - 82% 'Da iawn neu'n eithaf bodlon'

Mae darparu cyngor a Chefnogaeth i'n tenantiaid, cwsmeriaid a'n cydweithwyrwrth iddynt wynebu yr argyfwng costau byw yn flaenoriaeth. Rydym eisoes yn cefnogi tenantiaid drwy y Tîm Lles, wardeiniaid ynni a chanolfannau cymunedol ynghyd â chronfa galedi Grŵp Cynefin. Mae gennym bolisi i beidio troi tenantiaid o'u cartrefi am ddyledion rhent, a bydd ein swyddogion tai yn ymweld â'r holl denantiaid o leiaf unwaith y flwyddyn. Rydym wedi sefydlu Grŵp Argyfwng Costau Byw sy'n cynnwys tenantiaid.

Meysydd gwella:

- Adolygu fforddiadwyedd Tâl Gwasanaeth i denantiaid i sicrhau bod taliadau gwasanaeth yn parhau'n fforddiadwy ac yn rhoi gwerth am arian



Gwerth am Arian

Safon Rheoleiddio (SR) 6.0:

Mae gan Grŵp Cynefin ddull strategol o ymdrin â gwerth am arian sy'n llywio ei holl gynlluniau a gweithgareddau.

Mae'n pennu ei ddull strategol o ymdrin â gwerth am arian, gan sicrhau bod y dull yn ymwneud â'i ddiben cymdeithasol, ac yn gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol yn unol ag ef

Mae gennym Strategaeth Gwerth am Arian sy'n cael ei chymeradwyo a'i hadolygu gan y Bwrdd, ac sy'n dylanwadu ar y gyllideb a'r broses gynllunio busnes.

Mae Grŵp Cynefin o'r farn ei fod yn bodloni'r safon yn llawn



Gall ddangos i randdeiliaid, gan gynnwys tenantiaid, ei fod yn sicrhau gwerth am arian wrth gyflawni ei strategaeth a darparu ei wasanaethau

Mae Grŵp Cynefin yn craffu ar bob agwedd o'r busnes yn ystod ei broses flynyddol o osod y gyllideb a Chynllunio Busnes mwy hirdymor i sicrhau bod gwasanaethau'n darparu gwerth am arian ac yn ystyried fforddiadwyedd wrth osod ei rent.

Mae Grŵp Cynefin yn credu ei fod yn cydymffurfio'n rhannol â'r safon hon, ac mae angen gwaith pellach i ddangos ei fod yn cyflawni gwerth am arian wrth gyflwyno ei strategaeth a'i wasanaethau



Rydym yncnoi cil gyda'r Grŵp Tenantiaid fel rhan o ddatblygiad y Polisi Caffael. Mae mewnbyn gan y Grŵp wedi'i nodi o fewn y Polisi, ac sydd wedi derbyn y 'Stamp Cymeradwyo gan Denantiaid'.

Datganiad Gwerth am Arian Blynnyddol a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn dangos sut mae'n cyflawni effeithlonrwydd a'i effaith ar werth cymdeithasol – linc yma i'r datganiad

Caffael / Ail-gaffael 68 nwyddau, gwaith neu gontractau gwasanaethau rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022

Gwerth £492,057 o Waith Atgyweirio a Cynnal a Chadw wedi ei gaffael trwy 'Sell to Wales' rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022

Gorwel wedi cynnal arolwg budd cymunedol ar ei wasanaeth IDVA ym mis Ebrill 2021, a oedd yn dangos bod elw cymdeithasol o £20.57 ar gyfer pob £1 a fuddsoddwyd yn y gwasanaeth.

Meysydd gwella:

- Parhau i graffu buddion y Polisi Arbedion ac Effeithiolrwydd



Cynllunio Ariannol

Safon Rheoleiddio (SR) 7.0

Mae'r cynllunio a'r rheolaeth ariannol yn gadarn ac yn effeithiol



Mae'n gosod cynlluniau ariannol sy'n ei alluogi i gyflawni ei strategaeth a'i ddiben cymdeithasol, ac yn cyflwyno adroddiadau priodol i'r Bwrdd ynghylch y cynlluniau hyn

Mae gan Grŵp Cynefin Strategaeth Gyllid gadarn i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Busnes a'r Amcanion Strategol Corfforaethol, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd, ynghyd â phrofi straen. Mae profion straen yn seiliedig ar risgiau strategol allweddol.

Mae Grŵp Cynefin o'r farn ei fod yn bodloni'r safon yn llawn



Mae'n ariannol hyfyw yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy, ac mae'n sicrhau bod digon o gyllid a hylifedd i gefnogi hyn

Mae Cynllun Busnes Grŵp Cynefin yn gadarn, ac mae'n nodi'r cyllid sydd ei angen i'w gyflawni. Cefnogir y cynllun gan Bolisi Rheoli'r Trysorlys cadarn, sy'n cael ei adolygu yn flynyddol, ynghyd â Strategaeth a Chynllun Gweithredu Trysorlys blynyddol.

Mae Grŵp Cynefin o'r farn ei fod yn bodloni'r safon yn llawn



Mae'n monitro pob cyfamod y mae wedi cytuno arno â chyllidwyr, yn adrodd arno ac yn cydymffurfio ag ef

Mae Grŵp Cynefin yn cydymffurfio'n llawn â phob cyfamod benthycwr ac yn adrodd yn reolaidd i'r Pwyllgor Cyllid a Thwf ar gydymffurfio â'r cyfamodau benthycwyr perthnasol.

Mae Grŵp Cynefin o'r farn ei fod yn bodloni'r safon yn llawn



Rydym yn cytuno ac yn cydymffurfio â set o reolau aur sydd goruwch na'n cyfamodau mwyaf llym ac yn cynnwys meysydd megis proffidioldeb, hylifedd, a 'headroom' cyfamod.

Cynllunio Ariannol

Perfformiad Ariannol

Rydym wedi dangos perfformiad ariannol hanesyddol cryf, gan ddangos twf parhaus a chydymffurfiaeth gyson a chyfforddus â'n cyfr llog a chymhareb 'geario' ein rheolau aur. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, roedd ein perfformiad Cyfr Llog yn 144 % a Chymhareb Gearing yn 35 % ar ddiwedd y flwyddyn

Llif Arian

Ym mis Medi 2022, mae gan Grŵp Cynefin 36 mis o lif-arian ar hyn o bryd gyda gwerth £25m o gyfleusterau heb eu tynnu o wahanol fenthycwyr. Mae hyn yn erbyn gofyniad llif arian o leiaf 18 mis a nodir yn ein Polisi Rheoli'r Trysorlys ein hunain.

Mae gofynion ariannu'n cael eu hadolygu'n rheolaidd wrth ddiweddarau ein cynllun busnes 30 mlynedd yn flynyddol. Rydym yn cynnal adolygiad profi'n straen ar y Cynllun Bunes i gynnwys ystod o senarios niweidiol a'r rhagdybiaethau allweddol, ac mae'r profion straen a'r cynlluniau adfer yn cael eu craffu gan y Tîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Cyllid a Thwf, cyn cael eu cymeradwyo gan ein Bwrdd Rheoli.

Sail cyfradd llog

Ar 30 Medi 2022, mae 90 % o gyfanswm y benthyciadau sy'n weddill ar gytundebau cyfraddau llog sefydlog, sydd ar hyn o bryd yn amddiffyn y busnes yn erbyn y cynnydd presennol yn y gyfradd llog. Hyn o'i gymharu â'r gofyniad lleiaf posib o 60 % a nodir yn ein polisi.



Meysydd gwella:

- Cynghorwyr Trysorlys i adolygu Polisi Rheoli'r Trysorlys i roi sicrwydd annibynnol i'r Bwrdd bod y polisi yn 'addas yn yr amgylchedd deinamig presennol
- Cynnal Trysorlys Strategol ac Adolygiad Cyllid newydd er mwyn sicrhau cynllunio trysorlys cadarn canol tymor fel bod nodau ac amcanion strategol yn cael eu bodloni
- Craffu allanol/adolygu'r Cynllun Busnes gan Ymgynghorwyr y Trysorlys i roi sicrwydd annibynnol



Asedau a Rhwymedigaethau

Safon Rheoleiddio (SR) 8.0

Caiff asedau a rhwymedigaethau eu rheoli'n dda

Mae gan Grŵp Cynefin ddealltwriaeth gywir a chyfredol o'i asedau a'i rhwymedigaethau

Mae gan Grŵp Cynefin Gofrestr Asedau a Rhwymedigaethau cyfredol sy'n cynnwys cofnodion cynhwysfawr o'n cartrefi, benthychiadau a diogelwch cysylltiedig.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen i ni wella / diweddarau ein data cyflwr stoc dai i sicrhau cynllunio ariannol cadarn ar gyfer y dyfodol. Mae hwn yn faes ffocws i ni ar hyn o bryd. Fe wnaethom gaffael a phenodi syrfewyr newydd yn 2021 i gynnal arolygon cyflwr stoc newydd ar ein holl stoc dai dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r rhaglen hon ar y gweill ar hyn o bryd.

Credwn ein bod ar hyn o bryd yn rhannol gyda'r safon hon oherwydd y gwaith sy'n mynd rhagddo o ran gwella a diweddarau ein data cyflwr stoc tai.



Mae'n gwneud y defnydd gorau o asedau i gyflawni ei ddiben cymdeithasol a bodloni amcanion y sefydliad

Mae hwn yn ardal o waith dwys a ffocws gan Grŵp Cynefin ar hyn o bryd ac at y dyfodol. Mae manteision amlwg i'n tenantiaid a'n cymunedau o'n gweithgareddau craidd. Rydym yn hyderus drwy ymdrechion parhaus ein tenantiaid, Aelodau'r Bwrdd a'n staff y byddwn mewn sefyllfa i harneisio'r manteision hyn wrth symud ymlaen a byddwn mewn sefyllfa i ddadansoddi ac adrodd yn fanwl ar ein llwyddiannau yn y dyfodol.


Mae Grŵp Cynefin o'r farn ei fod yn bodloni'r safon yn llawn



Mae'n defnyddio gwybodaeth gywir am asedau a rhwymedigaethau i lywio penderfyniadau strategol ac ariannol

Mae Bwrdd Grŵp Cynefin yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth, gan gynnwys cyngor ariannol, risg ac annibynnol i lywio ei holl benderfyniadau mewn perthynas â'i hasedau a'i rhwymedigaethau.

Mae Grŵp Cynefin o'r farn ei fod yn bodloni'r safon yn llawn



Asedau a Rhwymidigaethau

Mae Strategaeth Gynaliadwyedd newydd wedi'i chymeradwyo a gafodd ei thrafod yn helaeth gyda thenantiaid a hefyd trwy weithdy wedi'i threfnu'n arbennig ar gyfer y Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau.

Rydym wedi buddsoddi yn ddiweddar mewn system fewnol 'Adrodd Effaith' i fonitro enillion cymdeithasol mewn prosiectau datblygu a fydd yn caniatáu inni adrodd yn gyson a monitro ar y gwerth cymdeithasol/enillion cymdeithasol wrth fuddsoddi i gontractau a gweithgareddau ehangach.


Ymgynghoriad cymunedol helaeth wedi ei gynnal gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol ar gyfer pob cynllun tai / cymunedol newydd i hyrwyddo ymgysylltu lleol a dylanwadu ar gynlluniau newydd. Un enghraifft o hyn yw'r Hwb aml-asiantaeth newydd yng Nghanolfan Lleu, Penygroes.

Strategaeth Cynaliadwyedd

Defnyddiwyd Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (Optimised Retrofit Programme) Llywodraeth Cymru o £447,175 i wneud gwaith gwella ynni effeithlonrwydd mewn 60 o gartrefi, yn cynnwys uwchraddio systemau gwresogi.

Grŵp Cynefin yn addunedu i ddyfodol gwyrdd

Mae Grŵp Cynefin wedi addunedu i leihau allyriadau carbon o 4% bob blwyddyn hyd at gyflawni sero net* erbyn y flwyddyn 2044. Yn ogystal â hyn, mae Strategaeth Cynaliadwyedd y grŵp hefyd yn anelu i gyflawni'r canlynol:



Meysydd gwella:

- Bod â arolwg cyflwr stoc cyflawn ar gyfer pob eiddo, a sicrhau bod gennym 100% o arolygon ar gyfer stoc <5 mlwydd oed. Sicrhau bod cofnodion rheoli asedau yn cael eu cynnal a'u diweddarau o fewn ein system reoli ac fod tenantiaid yn cael gwybodaeth am ein cynlluniau buddsoddi
- Gweithredu'r meddalwedd Adrodd Effaith i asesu effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol buddsoddiad cyfalaf ar gyfleoedd hyfforddiant ac addysg, creu swyddi, cefnogi'r gadwyn gyflenwi leol ac ati



Eiddo o Safon

Safon rheoleiddio (SR) 9.0

Mae Grŵp Cynefin yn darparu llety o ansawdd uchel

Mae'n sicrhau bod cartrefi a ariennir yn gyhoeddus yn cydymffurfio â'r holl safonau, rheolau a chanllawiau statudol perthnasol a gyhoeddir mewn perthynas ag ansawdd llety, gan gynnwys y Safon Ansawdd Tai Cymru gyfredol

Mae darparu llety o safon, bodloni'r holl ofynion cydymffurfio angenrheidiol yw un o amcanion strategol allweddol Grŵp Cynefin, ac rydym wedi ymgymryd â gwaith gydag ymgynghorwyr allanol i adolygu ein prif fannau cydymffurfio yn ystod y flwyddyn.

Mae gennym raglen adeiladu 3 blynedd newydd i ddarparu 358 o gartrefi erbyn diwedd 2023/24, ac mae pob eiddo newydd a ariennir gan grantiau wedi bod, a byddant yn cydymffurfio â 'Gofynion Ansawdd Datblygu' Llywodraeth Cymru a'r holl ofynion rheoliadol yn unol â'r canllawiau Grant Tai Cymdeithasol a'r broses Adolygu Technegol.

Rydym ar hyn o bryd yn cydymffurfio â safonau Safon Ansawdd Tai Cymru, yn amodol ar fethiannau derbyniol, ac rydym wedi ymrwymo tuag at leihau'r methiannau derbyniol a gyrru tuag at gydymffurfio'n llawn trwy amcanion strategol clir i gefnogi hyn.

Mae Grŵp Cynefin o'r farn ei fod yn bodloni'r safon yn llawn



Yn ddiweddar rydym wedi cwblhau trosglwyddiad 53 eiddo ym Machynlleth oddi wrth Gymdeithas Tai Wales & West.

Adroddiadau a diweddariadau i'r Pwyllgor Cymunedau Cwsmeriaid ynghylch sefyllfa cynnal a chadw drwy gydol Covid ynghyd â maint y 'ôl-groniad atgyweirio' y bu oherwydd y cyfnod clo, a'r gwaith oedd bellach wedi'i gwblhau. Cafodd 1400 o archebion gwaith eu dal yn ôl o ganlyniad i Covid yn Awst 2020, ond mae'r rhain bellach wedi'u cwblhau.

Rydym yn dal data 'EPC' ar gyfer 99% o'n heiddo heblaw yr eithriadau lleiaf, ac yn gweithio gyda SAVA – Intelligent Energy i fod yn rhoi trosolwg i ni a'n helpu i gynllunio ar gyfer bod mewn sefyllfa 'net sero' mewn ffordd effeithlon a hyblyg.

Rydym wedi buddsoddi yn ein Tîm Cynnal a Chadw drwy ailstrwythuro ac adolygu rôl swyddog Cynnal a Chadw Ardal' sydd wedi arwain at gael tîm llaw o Staff erbyn hyn; yn cynnwys 3 gweithiwr aml-grefft ychwanegol, a 2 arolygwr cynnal a chadw ardal a benodwyd mis Ebrill 2022.

O sampl tenantiaid a holwyd, roedd 84% yn fodlon, neu'n fodlon iawn gydag ansawdd eu cartref, a 91% bod Grŵp Cynefin yn darparu cartref sy'n ddiogel.



Meysydd gwellu

- Cwblhau'r adolygiad o'r holl bolisiau cydymffurfio allweddol yn dilyn sesiynau ymwybyddiaeth risg ccynhaliwyd gyda'r Bwrdd Rheoli i ddarparu cyfeiriad strategol ar feysydd cydymffurfio allweddol



Eiddo o Safon



Awel y Dyffryn

Agorodd Cynllun tai gofal ychwanegol Awel y Dyffryn yn Ninbych ei ddrysau am y tro cyntaf i'r trigolion ym mis Ionawr 2022. Cynllun gwerth £12 miliwn.

Mae'n cynnwys 42 o fflatiau dwy ystafell wely a 24 o fflatiau un ystafell wely ar gyfer pobl hŷn sy'n dymuno byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.



Llys Awelon

Mae prosiect newydd gwerth £12.2 miliwn yn golygu ailddatblygu'r Llys Awelon presennol yn Sir Ddinbych yn llwyr i greu cynllun gofal ychwanegol modern, carbon isel, pwrpasol i ddiwallu anghenion pobl hŷn yn ardal Sir Ddinbych. Bydd yn cynnig 35 o fflatiau un a dwy ystafell wely ychwanegol i'r 21 fflat presennol.



Canolfan Lleu

Mae Grŵp Cynefin yn arwain prosiect uchelgeisiol gwerth £38 miliwn ar gyfer canolfan gymunedol arloesol yng nghanol Penygroes, i wasanaethu pentref a chymunedau Dyffryn Nantlle a thu hwnt. Bydd yn cefnogi iechyd a lles pobl trwy amrywiaeth o wasanaethau traddodiadol ac ataliol. Bydd yn darparu lle i gwrdd â phobl a chymdeithasu, un lleoliad ar gyfer mynediad at wasanaethau iechyd, tai, gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau awdurdodau lleol, a fydd yn cryfhau'r economi leol.